

Y CYFANSODDIAD A'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
16 HYDREF 2019

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd
Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Delyn, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug,
ddydd Mercher, 16 Hydref 2019.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ted Palmer (Cadeirydd)

Cynghorydd: Chris Bithell, Jean Davies, Rob Davies, David Healey, Gladys Healey,
Joe Johnson, Paul Johnson, Mike Peers, Vicky Perfect, David Williams, David
Wisinger ac Arnold Woolley

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Bob Connah, Ray Hughes, Michelle Perfect ac
Ian Smith

DIRPRWYON: Y Cynghorwyr Janet Axworthy (ar ran Clive Carver) a Kevin Hughes
(ar ran Neville Phillips)

ARSYLWYR: Y Cynghorwyr Christine Jones a Patrick Heesom

HEFYD YN BRESENNOL: Prif Swyddog (Llywodraethu); Rheolwr y Gwasanaethau
Democrataidd; a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Cyn dechrau'r cyfarfod, dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd bod
aelodaeth y Pwyllgor wedi newid a bod y Cynghorydd David Williams yn disodli'r
Cynghorydd Rita Johnson o hyn ymlaen. Byddai eitem i benodi Is-gadeirydd yn cael
ei chynnwys ar raglen y cyfarfod nesaf.

9. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni dderbyniwyd dim.

10. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2019.

Materion sy'n codi

Gofynnodd y Cynghorydd Chris Bithell a oedd nodyn atgoffa wedi'i anfon
at yr holl Aelodau'n gofyn iddynt ddiweddarau'r cysylltiadau i'w datgan ac a oedd
yr Aelodau'n adolygu'r cysylltiadau roeddent wedi'u datgan yn flynyddol.
Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd bod cais wedi'i anfon a bod
nifer o Aelodau wedi diweddarau eu datganiadau o ganlyniad. Byddai nodyn
atgoffa blynyddol yn cael ei anfon at yr holl Aelodau yn y dyfodol a byddai cofnod
yn cael ei gadw o'r datganiadau wedi'u diweddarau.

Tudalen 4, Eitem 5 - Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth a Chynllun
Ymateb i Dwyll ac Afreoleidd-dra. Cyfeiriodd y Cynghorydd Chris Bithell at yr
hyfforddiant i Aelodau i ategu'r polisi diwygiedig a gofynnodd pryd y byddai'n cael
ei gynnal. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y byddai'n edrych
ar hyn ar ôl y cyfarfod.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

11. COD YMDDYGIAD

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad i ddiwygio'r Cod Ymddygiad yn unol â'r argymhellion gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rhoddodd y Prif Swyddog wybodaeth gefndir a dywedodd bod y Pwyllgor Safonau, mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Medi 2019, wedi ystyried argymhellion a chanfyddiadau arfer orau'r Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Credai y dylai'r Cyngor fabwysiadu Argymhelliad 6 mewn perthynas ag anrhegion a lletygarwch yn wirfoddol a newid ei God Ymddygiad i'w gwneud yn ofynnol i Aelodau ddatgan nid yn unig anrhegion o werth unigol penodol, ond hefyd anrhegion sydd werth mwy na swm penodol gyda'i gilydd. Y cynnig oedd y dylai unrhyw anrheg gwerth mwy na £10 gael ei gofrestru (fel sy'n wir ar hyn o bryd) ac os oeddent yn derbyn anrhegion gwerth £100 neu fwy gan yr un rhoddwr o fewn cyfnod o 12 mis, y dylai hyn gael ei gofnodi hefyd. Dywedodd y Prif Swyddog bod y diwygiad awgrymedig yn lleihau'r risg y gallai anrhegion/lletygarwch osgoi cael eu cofrestru trwy gael eu rhoi mewn symiau bach dros amser. Roedd y diwygiadau awgrymedig i'r Cod Ymddygiad i'w gweld yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Chris Bithell, rhoddodd y Prif Swyddog fwy o wybodaeth am ddiddymu Panel Dyfarnu Lloegr a soniodd am rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Cyfeiriodd y Cynghorydd Chris Bithell at dudalen 15, adran 6 (1) yn yr adroddiad a gofynnodd a oedd y datganiad hefyd yn berthnasol i gyrrff/sefydliadau cenedlaethol neu leol eraill. Eglurodd y Prif Swyddog bod hwn yn ddatganiad gorfodol a oedd yn berthnasol i bob cyngor lleol, a chyrrff eraill yng Nghymru, gan nodi'r Awdurdod Tân fel enghraifft.

Ceisiodd yr Aelodau gyngor am yr angen i gofrestru anrhegion o werth ariannol bach a allai, er enghraifft, gael eu rhoi gan breswlydd fel arwydd o werthfawrogiad am gefnogaeth i ddatrys mater yn eu Ward. Rhoddodd y Prif Swyddog eglurhad ynglŷn â chofrestru anrhegion a lletygarwch a dywedodd fod angen i'r Aelodau gofrestru unrhyw anrheg neu lletygarwch a bennir i fod werth £10 neu fwy a gwrthod unrhyw anrheg/lletygarwch o unrhyw werth sy'n ymddangos i roi'r Cynghorydd dan rwymedigaeth amhriodol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at dudalen 25, adran 17 (3), ac awgrymodd, lle'r oedd yn rhaid i Aelodau hysbysu Swyddog Monitro'r Awdurdod yn ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod, y gallai'r Swyddog Monitro gydnabod derbyn yr hysbysiad. Gofynnodd hefyd a fyddai cysylltiadau mae'r Aelodau wedi'u datgan yn cael eu diweddarau'n awtomatig wrth dderbyn yr hysbysiad neu a fyddai angen i'r Aelodau sicrhau eu bod nhw'n gwneud hyn.

Wrth drafod, rhoddodd y Prif Swyddog fwy o gyngor am y cwestiynau a'r sylwadau a godwyd ynghlwm â'r Gofrestr o Gysylltiadau, a chysylltiadau personol, a rhoddodd enghreifftiau o'r adeg y byddai angen i Aelod ddatgan cysylltiad personol neu gysylltiad personol sy'n rhagfarnu.

PENDERFYNWYD:

Argymhell bod y Cyngor Llawn yn cynnwys y diwygiad awgrymedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i anrhegion sydd werth cyfanswm o £100 neu fwy mewn unrhyw gyfnod o 12 mis gael eu datgan yn y Cod Ymddygiad i Gynghorwyr.

12. ADOLYGU SAFONAU SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad i adolygu'r safonau ymddygiad disgwylidig a oedd yn Safon Sir y Fflint/y Weithdrefn Ddatrys Leol. Rhoddodd wybodaeth gefndir ac eglurodd bod Swyddogion wedi adolygu'r Safon gydag Arweinwyr Grwpiau ac awgrymwyd rhai diwygiadau i ehangu ac egluro disgwyliadau o ran ymddygiad. Roedd y Pwyllgor Safonau, mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Medi 2019, wedi cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig ac awgrymodd hefyd y dylai cwynion dan y Safon gael eu gwneud o fewn 3 mis yn hytrach na 12 mis. Gan fod datrysiaid lleol wedi'i fwriadu i fod yn ddatrysiaid cyflym, roedd y newid awgrymedig yn gyson ag amcanion y broses.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Chris Bithell at dudalen 38, adran 6, yn yr adroddiad a gofynnodd a oedd y penderfyniad i fynd ymlaen i gam 2 neu gam 3 yn cael ei wneud gan y Swyddog Monitro neu'r sawl sy'n cwyno. Cyfeiriodd hefyd at adran 7, Cam 2 yn y Weithdrefn a, gan gyfeirio at y pedwerydd pwynt bwled, gofynnodd beth fyddai'r weithdrefn pe bai Aelod yn annibynnol ac nad oedd yn perthyn i grŵp ac nad oedd ganddo/ganddi Arweinydd Grŵp. Ymatebodd y Prif Swyddog i'r pwyntiau a godwyd a chytunodd i roi mwy o ystyriaeth i hyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Bithell at dudalen 38, adran 13 (b) a rhoddodd ei farn nad oedd y datganiad 'dim angen gweithredu ymhellach' yn foddhaol os oedd sail i gŵyn. Cyfeiriodd y Prif Swyddog at y tri dewis a oedd ar gael i'r Pwyllgor Safonau, fel yr oedd yr adroddiad yn ei nodi, a rhoddodd eglurhad ac enghreifftiau ar sut y gellid dod i gasgliad. Mewn ymateb i gwestiwn arall gan y Cynghorydd Bithell ynghylch paragraff 16, tudalen 39, cadarnhaodd y Prif Swyddog bod gan un sy'n cwyno hawl statudol i gyflwyno cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Dywedodd nad oedd gweithdrefnau lleol yr Awdurdod yn atal cwyn rhag cael ei chyflwyno i'r Ombwdsmon bod Aelod wedi torri Cod Ymddygiad yr Aelodau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at dudalen 35 yn yr adroddiad a gofynnodd a oedd angen pennawd ar gyfer Ymddygiad Cyhoeddus a phennawd ar wahân ar gyfer Ymddygiad yng nghyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau. Awgrymodd y Prif Swyddog y gellid cyfuno'r ddau bennawd i ffurfio un pennawd, 'Ymddygiad a ddisgwylir tuag at erail', a chytunodd y Pwyllgor ar hynny. Awgrymodd y Cynghorydd Kevin Hughes y gellid cynnwys cyfeiriad dan y pennawd at yr angen i'r Aelodau ymddwyn yn barchus wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu ar-lein.

PENDERFYNWYD:

Argymhell Safon ddiwygiedig Sir y Fflint i'r Cyngor i'w mabwysiadu.

13. DATBLYGU AC YMGYSYLLTU AELODAU

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad i roi diweddariad i'r Pwyllgor ar ddigwyddiadau Datblygu ac Ymgysylltu ag Aelodau a gynhaliwyd ers y cyfarfod diwethaf. Tynnodd sylw at y 'gweithdai ward' a oedd wedi'u trefnu ar ôl cyhoeddi cynigion Adolygiad y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol ar gyfer Sir y Fflint. Dywedodd hefyd y byddai 'sesiwn galw heibio' agored ar 24 Hydref ar gyfer unrhyw Aelodau a oedd eisiau trafod sut y byddai'r cynigion yn effeithio ar eu ward nhw. Ar 28 Hydref, byddai gweithdy adolygu Wardiau Etholiadol pob Aelod a fyddai'n cael ei ddefnyddio i gasglu gwybodaeth ar gyfer adroddiad i gyfarfod y Cyngor Sir a fyddai'n cael ei gynnal ar 19 Tachwedd 2019.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Bithell at y digwyddiadau a oedd yn cael eu cynnal yn ystod egwyl yr haf a gofynnodd a ellid osgoi hyn yn y dyfodol. Eglurodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd nad oedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ystod mis Awst yn gyffredinol ond nad oedd dyddiadau eraill ar gyfer y ddau ddigwyddiad a gynhaliwyd ar 1 Awst eleni. Amlygodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) nad oedd gan y Cyngor egwyl ffurfiol, yn wahanol i'r Senedd. Roedd holl wasanaethau'r Cyngor yn parhau tra nad oedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal. Gofynnodd y Cynghorydd Bithell a ellid cynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau mewn adroddiadau yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn nodi cynnydd y digwyddiadau Datblygu ac Ymgysylltu ag Aelodau a gynhaliwyd ers yr adroddiad diwethaf; ac
- (b) Os oedd gan Aelodau unrhyw awgrymiadau ar gyfer Datblygu ac Ymgysylltu ag Aelodau yn y dyfodol, bod gwahoddiad iddynt gysylltu â Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd i'w trafod.

14. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 3.00 pm)

.....
Y Cadeirydd